Annwyl Bawb

E-FWLETIN 26 MEHEFIN 2008

Mae diwedd mis arall wedi ein cyrraedd ac, erbyn hyn, mae llawer o ddefnyddwyr rheolaidd Morlan yn dechrau ein gadael am seibiant dros yr haf.

Pytiau o newyddion sydd gennyf i chi yn yr e-fwletin hwn gan ddechrau trwy sôn am berfformiad arbennig Theatr Hijinx. Bu Sera Moore Williams yn ddigon caredig i ysgrifennu adolygiad o'r ddrama i ni.

Hijinx yn y Morlan!

Pleser pur oedd eistedd yn y Morlan a gwylio *Full Circle*, drama gan Glenys Evans wedi'i gyflwyno gan gwmni Hijinx. Wedi'i ysbrydoli gan hanes Andrew Williams, dyn gydag anawsterau dysgu, a lwyddodd i deithio i *base camp* Everest, roedd *Full Circle* yn dangos bod modd ehangu gorwelion a gwireddu breuddwydion hyd yn oed pan fo rhwystrau o ran gallu bod yn annibynnol. Roedd y ddrama hefyd yn cyflwyno'r syniad o Gylch Cyfeillion, sef grŵp o bobl sy'n cynnig cymorth a chefnogaeth i unigolyn gydag anawsterau dysgu.

Roedd popeth am y perfformiad yn taro deg. Roedd y sgript yn ein tywys, gyda'r prif gymeriad Andy, ar ei daith i gopa Everest, gan nodi dewrder ei fam am adael iddo fynd, dewrder ei hyfforddwr am gymryd cyfrifoldeb am y fenter ac wrth gwrs ei ddewrder aruthrol o, wrth ymgymryd â champ na fyddai'r rhan fwyaf ohonom yn ei ystyried yn bosibl. Roedd y llwyfannu yn syml ac effeithiol, y golau yn trawsnewid set syml o un olygfa i'r llall, a'r perfformiadau yn ddiymrodres a chrefftus. Fel ymarferwr theatr, dyma'r math o gynhyrchiad sy'n f'atgoffa i bod drama yn arf cymdeithasol pwysig o hyd. Fel aelod o gynulleidfa, dyma'r math o theatr afaelgar, obeithiol, sy'n gwneud i rywun deimlo'n falch o fod yn fyw. Fel y dywedodd aelod o'r gynulleidfa wrth un o'r actorion wrth adael, "Fe ro'n i ar y mynydd gyda chi." Fel y dywedodd cymeriad Andy, a bortreadwyd yn wych gan Gareth Clark (yntau hefyd ag anawsterau dysgu), "Wow".

Bydd Theatr Hijinx yn ôl y flwyddyn nesaf gyda chynhyrchiad arall – edrychwch allan amdano felly.

Dydd Llun nesaf (30 Mehefin) byddwn yn croesawu i Morlan grwp o bobl o Geredigion sy'n awyddus i ddatblygu eu neuaddau pentref. CAVO sydd wedi trefnu'r trip ac wedi dewis Morlan fel enghraifft dda o drawsnewid hen neuadd yn ganolfan lewyrchus i'r gymuned. Bydd y criw yn cael eu tywys o amgylch Morlan ac yn cael cyfle i ddysgu a darganfod mwy am sut y datblygodd y lle.

Bore yma rydym wedi clywed bod Prosiect Goleuadau Nadolig 2007 – efallai i chi gofio ei weld y tu allan i Morlan y llynedd – wedi ennill Gwobr Impetus (gwobrau sy'n cydnabod gwaith pobl ifanc ym maes iawnderau dynol yw'r – cliciwch yma am wybodaeth bellach). Roedd y prosiect yn gydweithrediad rhwng Clwb Ieuenctid Morlan (a gynrychiolwyd gan Owain Llywelyn) a Chlwb Ieuencid Penparcau, ac mae'n un o 15 o brosiectau sydd wedi llwyddo i gyrraedd y rhestr fer gyda'r posibilrwydd o fynd cam ymhellach a chynrychioli Cymru yn Llundain. Mae cynrychiolwyr y prosiect wedi eu gwahodd i Ddigwyddiad Arddangos Cymru yn y Gerddi Botaneg Cenedlaethol ar ddydd Mawrth, 15 Gorffennaf 2008 pan fydd Comisiynydd Plant Cymru yn cyflwyno Tystysgrifau'r Wobr iddynt ac yn datgan pa ddau brosiect fydd yn mynd ymlaen i Lundain. Llongyfarchiadau mawr i bawb fu'n cymryd rhan.

Os gwyddoch chi am unrhyw rai fyddai â diddordeb mewn cael gwybod am beth sy'n mynd ymlaen ym Morlan, mae pob croeso i chi anfon yr e-fwletin hwn ymlaen atyn nhw.

Os nad ydych chi'n dymuno derbyn yr e-fwletin hwn bellach, rhowch wybod i ni trwy ateb y neges hon ac fe dynnwn eich enw o'r rhestr postio ar unwaith.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr